- Bydd ysgoloriaethau ar gael i'r holl fyfyrwyr amser llawn newydd o'r Deyrnas Unedig sy'n cyflwyno ceisiadau am gyrsiau israddedig ym Mhrifysgol Abertawe (mae eithriadau'n berthnasol, gweler isod);
- Bydd pob Ysgoloriaeth Rhagoriaeth yn werth £3,000 dros dair blynedd (gyda £1,000 yn daladwy yn y flwyddyn gyntaf, £1,000 yn yr ail flwyddyn a £1,000 pellach yn daladwy yn y drydedd flwyddyn);
- Bydd pob Ysgoloriaeth Teilyngdod yn werth £2,000 dros dair blynedd (gyda £670 yn daladwy yn y flwyddyn gyntaf, £670 yn yr ail flwyddyn a £670 pellach yn daladwy yn y drydedd flwyddyn);
- Bydd angen i fyfyrwyr ennill cyfartaledd cyffredinol o 60% a bodloni'r gofyniad dilyniant drwy ennill o leiaf 55% ym mhob modiwl ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn er mwyn derbyn eu hail a'u trydydd rhandaliad;Os nad yw myfyriwr yn llwyddo i gyflawni cyfartaledd cyffredinol o 60%, gydag isafswm o 55% ym mhob modiwl mewn unrhyw flwyddyn, caiff yr ysgoloriaeth ei therfynu. Bydd cyflawni gradd gyfwerth yng nghymhwyster Uwch Bagloriaeth Cymru'n cael ei gydnabod at ddibenion y dyfarniad;
- Bydd ysgoloriaethau ar gael ym mhob maes pwnc (anrhydedd sengl, cydanrhydedd ac anrhydedd cyfunol), ac eithrio'r rhaglenni hynny sydd â chyllid allanol ar gyfer y cwrs cyfan neu ran o'r cwrs (e.e. Gwaith Cymdeithasol, Meddygaeth i Raddedigion, Nyrsio/Bydwreigiaeth) gan y cyrff proffesiynol priodol;
- Y Weithdrefn Ymgeisio: Bydd unrhyw fyfyriwr sy'n cyflwyno cais ac sy'n ennill AAA (Rhagoriaeth) neu AAB (Teilyngdod) ar lefel Safon Uwch neu gyfwerth (ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol ar Safon Uwch) yn derbyn ysgoloriaeth yn awtomatig. Mae'n rhaid i'r ysgoloriaeth gael ei derbyn, a rhaid mewnbynnu manylion banc ar system gyllid y Brifysgol erbyn diwedd tymor cyntaf y myfyriwr. Bydd peidio â bodloni unrhyw un o'r gofynion erbyn y dyddiad cau hwn yn arwain at dynnu cynnig o'r ysgoloriaeth yn ôl.
- Gwnaed pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth hon. Fodd bynnag, nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw atebolrwydd cyfreithiol am gamgymeriadau neu esgeulustra ac mae ganddi'r hawl i wneud newidiadau heb rybudd o flaen llaw.

CYNLLUN YSGOLORIAETHAU RHAGORIAETH ISRADDEDIG PRIFYSGOL ABERTAWE, AMODAU A THELERAU CYMHWYSEDD:

1. Bydd yr ysgoloriaethau'n agored i fyfyrwyr israddedig amser llawn o'r DU yn unig.

2. Dyfernir yr ysgoloriaethau gan y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn i ymgeiswyr sydd, ym marn y Pwyllgor, wedi arddangos y gallu academaidd mwyaf neilltuol.

3. Bydd ysgoloriaethau ar gael ym mhob maes pwnc (anrhydedd sengl a chydanrhydedd), ac eithrio Meddygaeth, Gwaith Cymdeithasol a chyrsiau yn y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd, lle telir y ffïoedd gan y cyrff proffesiynol priodol.

4. NID yw'r ymgeiswyr canlynol yn gymwys am ysgoloriaeth: Myfyrwyr cyfnewid, myfyrwyr sy'n ymweld/cysylltiol (gan gynnwys myfyrwyr iIiaith Saesneg) a myfyrwyr a dderbyniwyd fel myfyrwyr amser llawn yn y Brifysgol neu unrhyw brifysgol neu sefydliad cyfatebol arall yn y gorffennol.

Amodau a Thelerau:

1. Bydd pob Ysgoloriaeth Rhagoriaeth yn werth £3,000 dros dair blynedd (gyda £1,000 yn daladwy yn y flwyddyn gyntaf, £1,000 yn yr ail flwyddyn a £1,000 pellach yn daladwy yn y drydedd flwyddyn)

2. Bydd pob Ysgoloriaeth Teilyngdod yn werth £2,000 dros dair blynedd (gyda £670 yn daladwy yn y flwyddyn gyntaf, £670 yn yr ail flwyddyn a £670 pellach yn daladwy yn y drydedd flwyddyn).

3. Gellir dal ysgoloriaethau ar ben unrhyw ddyfarniad arall y gallai deiliad yr ysgoloriaeth ei dderbyn gan gorff addysg leol a/neu gyrff dyfarnu grantiau eraill, ac ar yr un pryd â'r rhain. .

4. Gall Adran Farchnata'r Brifysgol gysylltu â deiliaid ysgoloriaeth ar ôl iddynt dderbyn y dyfarniad. Mae'n rhaid i'r ysgoloriaeth gael ei derbyn, a rhaid mewnbynnu manylion banc ar system gyllid y Brifysgol erbyn diwedd tymor cyntaf y myfyriwr. Bydd peidio â bodloni unrhyw un o'r gofynion erbyn y dyddiad cau hwn yn arwain at dynnu'r cynnig o ysgoloriaeth yn ôl.

5. Wedi derbyn dyfarniad, os bydd deiliad ysgoloriaeth yn tynnu'n ôl o'r Brifysgol, bydd rhaid i'r deiliad ad-dalu i'r Brifysgol unrhyw ddyfarniad a wnaed, yn llawn neu'n rhannol, yn ôl penderfyniad y Pwyllgor.

6. Bydd angen i fyfyrwyr ennill cyfartaledd cyffredinol o 60% a bodloni'r gofyniad dilyniant drwy ennill o leiaf 55% ym mhob modiwl ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn er mwyn derbyn eu hail a'u trydydd rhandaliad.2} ; Os nad yw myfyriwr yn llwyddo i gyflawni cyfartaledd cyffredinol o 60%, gydag isafswm o 55% ym mhob modiwl mewn unrhyw flwyddyn, caiff yr ysgoloriaeth ei therfynu.

7. Gyda chymeradwyaeth yr Is-ganghellor neu berson enwebedig, os bernir nad yw cynnydd deiliad ysgoloriaeth yn foddhaol, gellir tynnu'r ysgoloriaeth yn ôl. Os yw'r myfyriwr yn teimlo nad oes cyfiawnhad dros dynnu ei ysgoloriaeth yn ôl, caiff apelio'n ysgrifenedig gan ddefnyddio proses apelio ffurfiol y Brifysgol.

8. Os nad oes ymgeiswyr teilwng, neu os nad oes digon o ymgeiswyr teilwng, ym marn y Pwyllgor, mae'r Senedd yn cadw'r hawl i beidio â chynnig rhai o'r ysgoloriaethau neu bob un ohonynt.

9. Mae'r Senedd yn cadw'r hawl i wneud, newid, dileu, atal neu ganslo'r Rheoliadau hyn, ac unrhyw Reoliadau eraill a all fod mewn grym o bryd i'w gilydd, heb rybudd, a bydd y fath benderfyniadau yn derfynol.

Cyhoeddwyd: Tachwedd 2006 Diweddarwyd: Tachwedd 2024